Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Aberdâr

Ynys Road
Aberdâr
Rhondda Cynon Taf
CF44 7RP

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Aberdâr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Aberdâr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1227 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1109 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 118 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.3%) | 29.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 9.0%) | 4.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.4% |
| Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/03/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/01/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae disgyblion a staff yn falch o berthyn i Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae'r pennaeth wedi gyrru'r ffocws ymrwymedig ar les, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol a diwylliant diogelu cryf. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer ei disgyblion, ar y cyfan, yn cynnwys y rhai yn y chweched dosbarth a dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol. Caiff y cwricwlwm hwn ei gyfoethogi trwy ystod eang o glybiau ac ymweliadau allgyrsiol gwerthfawr. Ceir ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion, yn enwedig y rhai yn y chweched dosbarth, i gyfrannu at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth strategol y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn raddol, a chynllunio ar ei gyfer, wedi eu datblygu'n ddigonol.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn gwneud cynnydd addas. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio tasgau priodol i ennyn diddordeb disgyblion a'u cael i ddal ati i ganolbwyntio. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i ddiffygion mewn addysgu, yn enwedig oherwydd bod disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn rhy isel, peidio â defnyddio holi yn ddigon da i ddyfnhau meddwl disgyblion, a'r ffaith nad yw eu hesboniadau'n eglur.

Mae arweinwyr wedi ymrwymo i ddarparu'r cyfleoedd a'r profiadau gorau ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt yn meddu ar fedrau cynllunio strategol, ac nid ydynt yn dwyn staff, na'i gilydd, i gyfrif yn ddigon da. Er eu bod yn ymgymryd ag ystod addas o weithgareddau hunanwerthuso, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith ar gynnydd disgyblion gyda thrylwyredd na chywirdeb digonol. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn glir, ac mae diffyg manwl gywirdeb wrth gynllunio gwelliant.

Mae arweinwyr wedi ad-drefnu rolau a chyflwyno strategaethau newydd i gryfhau eu gwaith ar wella presenoldeb. Er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae presenoldeb disgyblion yn rhy isel o hyd, yn enwedig presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol ar bob lefel

A2 Gwella ansawdd ac effaith yr addysgu fel ei fod yn cefnogi pob disgybl i wneud cynnydd cryf

A3 Gwella'r arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol

A4 Cryfhau trylwyredd a manwl gywirdeb prosesau hunanwerthuso a gwella

A5 Gwella presenoldeb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai yn 'Astra' a 'Sirius' (dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol sydd wedi eu lleoli yn yr ysgol), yn falch o fod yn ddisgyblion yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Maent yn foesgar a chwrtais â'u hathrawon, eu cyfoedion ac ymwelwyr. Yn sgil cefnogaeth trwy eu perthnasoedd buddiol â'u hathrawon, mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio tasgau priodol sy'n adeiladu'n ddilyniannol ar ei gilydd. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau buddiol i gefnogi dysgu disgyblion, fel trafod enghreifftiau o sut olwg allai fod ar waith gorffenedig disgyblion, neu addasu adnoddau'n synhwyrol ar gyfer disgyblion â medrau gwannach. Maent yn defnyddio oedolion eraill yn dda i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn holi'n fedrus, gan brocio gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach disgyblion. Mae hyn yn sbarduno disgyblion i feddwl yn ofalus ac esbonio'u rhesymu'n glir, gan ddefnyddio terminoleg gywir sy'n benodol i bwnc. Yn y gwersi hyn, mae tasgau heriol a wnaed yn hygyrch gan addysgu effeithiol, yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig. Yn y gwersi hyn:

- mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud yn rhy isel
- nid yw athrawon yn rhoi esboniadau clir
- nid oes gan athrawon syniad clir am beth mae disgyblion yn ei ddeall na'r cynnydd maent yn ei wneud
- mae athrawon yn gofyn ystod gul o gwestiynau sylfaenol sy'n ysgogi ymatebion ffeithiol byr yn unig gan ddisgyblion

O ganlyniad, mae'r athrawon hyn yn cynllunio tasgau sylfaenol neu drefnedig nad ydynt yn helpu disgyblion i ddysgu. Yn aml, mae disgyblion yn mynd yn oddefgar neu'n ymddieithrio gan nad yw cyflymdra'r wers yn gweddu i'w dysgu yn ddigon da. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn siarad gyda disgyblion am gyfnodau hir neu'n tarfu ar feddwl disgyblion.

Mae ansawdd adborth ysgrifenedig yn rhy amrywiol ac mae disgwyliadau athrawon o sut dylai disgyblion wella'u gwaith yn rhy isel. Yn gyffredinol, mae sylwadau'n canolbwyntio mwy ar gwblhau tasgau ac ymdrech disgyblion nag ar ansawdd eu gwaith a sut gellir ei wneud yn well. Nid yw athrawon yn monitro'n ddigon agos sut mae disgyblion yn ymateb i wella'u gwaith.

## Medrau

Mae cynllunio darpariaeth yn strategol, a'i chydlynu, ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol yn gyfyngedig. Caiff strategaethau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd eu defnyddio'n anghyson gan athrawon. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau'n ddigonol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cynnig ymatebion annatblygedig byr yn unig i gwestiynau athrawon. O roi cyfle ac anogaeth iddynt, mae ychydig o ddisgyblion yn esbonio'u meddwl mewn manylder priodol ac yn ymateb yn ystyriol i safbwyntiau disgyblion eraill. Yn gyffredinol, nid yw ystod a chymhlethdod iaith lafar disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn amharod i gyfrannu ar lafar, ac nid oes ganddynt hyder wrth drafod gwaith gyda'u cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion yn dod o hyd i wybodaeth sylfaenol yn addas mewn testunau. Maent yn defnyddio casgliad sylfaenol wrth ystyried pa argraffiadau sy'n cael eu creu gan ddelwedd, er enghraifft argraffiadau mewnfudwyr yn cyrraedd Ellis Island, Efrog Newydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen datblygedig, fel crynhoi a chyfosod, yn briodol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm yn aml wedi eu cyfyngu i adalw gwybodaeth. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu nac yn cymhwyso ystod ddigonol o fedrau darllen yn ddigon da i gefnogi eu dysgu.

Mewn gwersi Saesneg, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu hysgrifennu i hyd rhesymol wrth ysgrifennu'n ddadansoddol, yn greadigol neu'n ymresymiadol. Mae'r disgyblion hyn yn ysgrifennu'n gywir ac yn strwythuro'u hysgrifennu yn addas mewn paragraffau, ar y cyfan. Ar draws y cwricwlwm, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod addas o eirfa yn eu hysgrifennu ac yn sillafu terminoleg sy'n benodol i bwnc yn gywir, ar y cyfan. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau perthnasol neu olygu ac ailddrafftio'u hysgrifennu. Rhoddir gormod o strwythur a chymorth gan eu hathrawon i ddisgyblion wrth ysgrifennu. O ganlyniad, mae ymatebion disgyblion yn aml yn syml, yn fyr, ac nid oes iddynt eglurder na chydlyniant. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sylfaenol rheolaidd yn eu gwaith, fel peidio â defnyddio priflythrennau'n briodol bob amser, ac mae marcio athrawon ar gyfer llythrennedd yn rhy anghyson i fod yn effeithiol. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau llawysgrifen gwan sy'n effeithio ar eu gallu i gyfathrebu'n glir.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol ac yn gweithio'n gymwys gyda'r pedair rheol rhif. Maent yn darganfod arwynebedd siapiau syml ac yn lluosi ffracsiynau sylfaenol yn briodol. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemateg a rhifedd yn ddigon da, sy'n cyfyngu ar eu gallu i alw i gof a chymhwyso cysyniadau yn annibynnol neu mewn cyd-destunau mwy heriol.

At ei gilydd, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i gymhwyso a datblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mewn ychydig iawn o bynciau perthnasol, maent yn tynnu llun ystod o graffiau yn gywir ac yn gweithio'n briodol gyda rhif. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sylfaenol wrth dynnu llun graffiau, ac anaml y maent yn eu dadansoddi. Ceir enghreifftiau priodol o ddisgyblion yn gweithio gyda rhif ac algebra ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, yn aml, rhoddir gormod o gymorth iddynt, ac anaml y maent yn dangos gallu i aildrefnu hafaliadau yn annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg ac maent yn dechrau datblygu mwy o hyder wrth siarad yr iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn galw geirfa sylfaenol i gof yn briodol ac yn ynganu geiriau Cymraeg yn glir ac yn gywir. Nid oes gan leiafrif o ddisgyblion hyder wrth siarad am nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ymateb neu sgwrsio yn Gymraeg. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dod o hyd i ffeithiau mewn testunau Cymraeg yn addas i ateb cwestiynau sylfaenol. Maent yn ysgrifennu darnau byr o waith ac yn dangos safon addas o gywirdeb. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae disgyblion yn dibynnu gormod ar batrymau strwythurol a sgaffaldiau i gefnogi tasgau llafar ac ysgrifenedig. At ei gilydd, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae disgyblion yn elwa ar ychydig o gyfleoedd addas mewn gwahanol bynciau i ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae'r 'Criw Cymraeg' yn grŵp gweithgar o ddisgyblion sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg trwy fentrau fel 'Dydd Mercher Miwsig' ac yn addysgu gwers Gymraeg yn ystod diwrnodau pontio Blwyddyn 6. Yn ogystal â chymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol, maent yn gwerthfawrogi cystadlu yn Eisteddfod y Rhondda ac Eisteddfod yr Urdd.

Mae ychydig o bynciau'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae hyn yn cynnwys creu a golygu cynnwys digidol yn addas. Yn eu gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae disgyblion yn datblygu eu medrau codio yn addas ac yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd, yn cynnwys cronfeydd data a thaenlenni.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos medrau motor manwl trwy wnïo, peintio a phrosesu geiriau. Mae ganddynt fedrau cydsymud cywir rhwng llaw a llygad wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon fel pêl-fasged, badminton ac achub bywyd.

## Cwricwlwm

Mae gweledigaeth Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar brofiadau dysgu o ansawdd da a dilyniant disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn cael ei drosi'n ddigon da i gynllunio a darpariaeth.

At ei gilydd, mae arweinwyr wedi addasu cwricwlwm eang a chytbwys yr ysgol yn addas i ddiwallu anghenion disgyblion, er enghraifft trwy'r cwricwlwm 'medrau sylfaenol' ym Mlwyddyn 7 a darpariaeth 'Cyfle' ar gyfer disgyblion bregus a disgyblion sydd wedi ymddieithrio ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Fodd bynnag, mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae disgyblion ym Mlwyddyn 9 yn dewis astudio o blith ystod briodol o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u dyheadau. Darperir ystod fuddiol o wybodaeth ddiduedd a chyfleoedd i lywio'u hopsiynau a'u dewisiadau gyrfa. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen fywiog a chynhwysol o gyfleoedd allgyrsiol sy'n cael eu mynychu'n dda gan ddisgyblion.

Mae rhaglen addysg bersonol, ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yr ysgol yn darparu profiadau dysgu priodol ar gyfer disgyblion, ar y cyfan. Mae'n cwmpasu ystod o destunau addas, fel lles emosiynol, hunaniaeth bersonol a pherthnasoedd parchus. Cefnogir y ddarpariaeth hon yn briodol trwy wasanaethau, y rhaglen diwtorial a phartneriaethau gwerthfawr gyda sefydliadau allanol. Mae disgyblion hefyd yn datblygu eu dealltwriaeth o hanes a phrofiadau cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a'r gymuned LHDTC+, er enghraifft wrth astudio barddoniaeth Dean Atta yn Saesneg fel rhan o uned ar hunaniaeth.

## Chweched dosbarth

Yn y chweched dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n bwrpasol mewn gwersi ac yn gweithio'n dda yn annibynnol. Maent yn trafod testunau'n ystyriol gyda'u cyfoedion ac yn cyfrannu'n briodol at sgyrsiau ehangach. Mae llawer o ddisgyblion yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag ymwelwyr ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau yn yr ysgol a'u huchelgeisiau yn y dyfodol.

Mae'r cwricwlwm chweched dosbarth yn eang ac amrywiol. Mae'n cynnig ystod eang o bynciau cyffredinol a galwedigaethol i ddiwallu anghenion nifer gynyddol o ddisgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr trwy sesiynau 'cyfoethogi'. Mae disgyblion yn elwa ar fentora gwerthfawr ac arweiniad diduedd sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion unigol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u hysbysu'n dda am eu hopsiynau yn y dyfodol. Mae disgyblion chweched dosbarth yn chwarae rôl weithredol ym mywyd yr ysgol, yn cynnwys arwain pwyllgorau'r Senedd, mentora disgyblion iau a chyfrannu at wneud penderfyniadau ysgol gyfan.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn sail i bob agwedd ar ei gwaith. Mae gwaith tîm bugeiliol dynodedig yn cyfrannu at yr amgylchedd digynnwrf ac anogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf. Ceir rolau clir, gweithdrefnau cadarn a systemau cydlynus sy'n sicrhau bod trefniadau diogelu yn cael eu deall a'u gweithredu'n gyson. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gefnogi anghenion disgyblion.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da ac ar gyfer delio ag unrhyw achosion o ymddygiad gwael. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi neu o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt broblem ac maent yn hyderus bod staff yn gwrando arnynt. Mae staff yn delio â'r achosion prin iawn o fwlio ac aflonyddu honedig, a defnyddir dulliau adferol yn dda i gefnogi pob disgybl sy'n gysylltiedig.

Mae presenoldeb ysgol gyfan wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae strategaethau diweddar, yn enwedig adleoli staff i gryfhau arwain presenoldeb, yn dechrau ysgogi canlyniadau cadarnhaol. Er gwaethaf hyn, mae presenoldeb yn rhy isel o hyd, mae islaw presenoldeb ysgolion tebyg ac nid yw wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chyfraddau absenoldeb parhaus wedi gwella'n raddol, ond maent yn parhau i fod ymhell islaw cyfraddau absenoldeb ysgolion tebyg.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol, yn cynnwys ensembles cerddorol, gweithgareddau chwaraeon a chlwb gwyddbwyll. Maent yn elwa ar y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o dripiau ac ymweliadau cyfoethogi, er enghraifft tripiau i theatrau, amgueddfeydd, y Senedd yng Nghaerdydd a Krakow. Mae tripiau cyfoethogi fel sgïo, ymweliadau i Baris, Llundain a Llangrannog, yn cynnig profiadau cofiadwy.

Mae disgyblion yn elwa ar drefniadau bugeiliol strwythuredig ac effeithiol ym mhob cyfnod. Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys diwrnodau rhagflas ym Mlynyddoedd 5 a 6, sy'n eu helpu i setlo'n hyderus ac yn gyflym ym Mlwyddyn 7.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd ystyrlon i arwain a chyfrannu at fywyd yr ysgol, yn cynnwys trwy 'Senedd Ysgol' sefydledig. Mae'r pwyllgorau iechyd meddwl a lles, ac amrywiaeth yn arwain mentrau llwyddiannus, sy'n cynnwys digwyddiadau i godi arian ar gyfer elusennau fel y 'Colour Run'. Mae 'Pwyllgor Rhyngwladol' yr ysgol yn hyrwyddo cynhwysiant a thegwch, gan arwain digwyddiadau ysgol gyfan fel 'Diwrnod Cymunedol Rhyngwladol' a'r 'Ras yn Erbyn Casineb'.

Mae'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o anghenion disgyblion ac mae wedi datblygu perthnasoedd ymddiriedus â'r disgyblion hyn er mwyn gweithio gyda'i gilydd i'w cefnogi. Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer nodi'n gynnar trwy drefniadau pontio clwstwr cryf. I gefnogi eu cyfnod pontio, mae disgyblion ag ADY yn elwa ar ymweliadau estynedig yn ystod y gwyliau ysgol. Mae'r tîm ADY yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gynnig cymorth ychwanegol, pan fydd angen. Mae proffiliau un dudalen yn darparu gwybodaeth ddigonol ac mae ar gael yn ganolog i bob un o'r staff. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da wrth gynllunio gwersi.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o ymyriadau addas sy'n cefnogi anghenion academaidd, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion, yn cynnwys yn narpariaethau 'Hafan', 'Noddfa' a 'Cyfle'. Mae'r rhain yn helpu disgyblion i ddatblygu eu hyder, eu hunan-barch a'u gwydnwch a lleihau eu rhwystrau rhag dysgu.

### Dosbarthiadau Arbenigol yr Awdurdod Lleol

Mae dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol yn darparu amgylchedd hynod werthfawr, diogel ac anogol sy'n helpu disgyblion i reoli eu gorbryder a chynnal parodrwydd i ddysgu. Mae cymorth lles yn gryf a chydlynus. Mae'r ysgol yn elwa ar staff sydd wedi eu hyfforddi'n dda ac yn hynod brofiadol. Defnyddir ystod o offer sgrinio a monitro yn briodol i lywio cymorth ac olrhain lles.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn nosbarthiadau 'Astra' a 'Sirius' yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o'u mannau cychwyn. Maent yn cael cyfle i elwa ar gwricwlwm priodol sy'n cefnogi datblygiad eu medrau bywyd yn dda. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd dysgu ymarferol buddiol, sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer bywyd oedolyn. Er gwaethaf hyn, nid yw systemau ar gyfer gwerthuso effaith addysgu a chynnydd disgyblion yn ddigon cadarn.

Caiff y ddarpariaeth ei hintegreiddio'n dda yng nghymuned yr ysgol ehangach. Mae'n cynnwys adnoddau da ac yn drefnus, gydag amserlenni gweledol clir, cyfle i ddefnyddio TGCh a mannau hyblyg sy'n cefnogi ymgysylltiad disgyblion yn addas.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a phwyllog. Ers ei benodi ym mis Medi 2024, mae wedi canolbwyntio'n dda ar ddatblygu diwylliant diogelu cryf ac annog perthnasoedd pwrpasol â staff, disgyblion a chymuned yr ysgol ehangach. Mae hyn wedi dechrau sicrhau'r ymddiriedaeth angenrheidiol sy'n sail i'w weledigaeth i ddisgyblion 'ffynnu, cyflawni, credu'. Mae wedi datblygu dealltwriaeth eang o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, yn cynnwys yr angen i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf a gwelliannau cadarn mewn lles a phresenoldeb. Mae arweinwyr wedi ehangu'r ddarpariaeth chweched dosbarth sydd wedi ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion yn y sector ôl-16. Fodd bynnag, ar hyn

o bryd, mae ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol. O ganlyniad, nid yw wedi arwain at welliannau digonol mewn agweddau pwysig ar waith yr ysgol fel addysgu, y ddarpariaeth ar gyfer medrau, a hunanwerthuso a chynllunio gwelliant manwl gywir.

Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn glir, yn deg ac yn cael eu deall, ar y cyfan, er bod llawer ohonynt yn rhy weithredol yn eu rolau ac nid oes ganddynt ymwybyddiaeth strategol. Adlewyrchir y diffyg hwn yn eu rheolaeth llinell ar arweinwyr canol. O ganlyniad, nid ydynt yn darparu lefel ddigon cryf o her a chymorth i helpu'r arweinwyr canol hynny i ddatblygu eu medrau arwain neu gryfhau eu gwerthusiad o addysgu a dysgu. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i arwain a gwella'u meysydd cyfrifoldeb.

Mae llawer o arweinwyr canol yn gadarnhaol am y newidiadau a wnaed gan y pennaeth ers ei benodi, ac yn dangos yn glir eu hymrwymiad i wella dysgu a lles disgyblion. Gall y rhan fwyaf ohonynt roi manylion am ddeilliannau ar ddiwedd Blwyddyn 11, ond nid yw eu gwerthusiadau o'r data hwn ac o safonau bob amser yn ddigon miniog. Ochr yn ochr â'u hymglymiad prin mewn prosesau sicrhau ansawdd, mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt nodi'n fanwl gywir a chynllunio i wella'r agweddau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb sydd angen eu gwella fwyaf.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi newid ei dull o werthuso a gwella, yn cynnwys cyflwyno prosesau a systemau newydd. Er bod arweinwyr yn casglu ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol am waith yr ysgol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr effaith a gaiff darpariaeth ar gynnydd neu les disgyblion. Yn rhy aml, maent yn canolbwyntio'n unig ar gydymffurfio â pholisïau'r ysgol sy'n cyfyngu ar eu gallu i nodi cryfderau penodol a meysydd penodol i'w gwella mewn agweddau pwysig ar eu gwaith. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu, lle mae gan arweinwyr yn aml farn sy'n rhy gadarnhaol am y ddarpariaeth a'i heffaith ar gynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon manwl gywir. Yn gyffredinol, maent yn gosod blaenoriaethau gwella eang ac nid ydynt yn ystyried yn ddigon gofalus sut na phryd y byddant yn monitro effaith eu gwaith. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd diwethaf.

Mae prosesau i fonitro a gwerthuso perfformiad staff yn addas ac yn cael eu deall. Yn gyffredinol, mae staff yn eu hystyried yn gefnogol gan eu bod yn cysylltu ag ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol, at ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn bob amser yn cyd-fynd yn ddigon agos â'r agweddau ar eu gwaith sydd angen eu gwella fwyaf. O ganlyniad, nid yw cynnig dysgu proffesiynol yr ysgol wedi arwain at welliannau digonol yn ansawdd yr addysgu na'r arweinyddiaeth. Nid yw gwerthusiad yr ysgol ei hun o'r dysgu proffesiynol hwn mor gadarn gan nad yw wedi'i gysylltu'n fanwl gywir â'i effaith ar ddysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn dwyn profiad eang a pherthnasol i'w rôl ac yn darparu cefnogaeth gadarn i'r ysgol. Maent yn cael eu hysbysu'n briodol am gyllid ac yn ymwybodol o ddeilliannau ar ddiwedd Blwyddyn 11. Fodd bynnag, mae eu hymwybyddiaeth o feysydd sydd angen eu gwella mewn addysgu ac arweinyddiaeth yn gyfyngedig, sy'n eu galluogi i gynnig lefelau cymedrol o her yn unig ynghylch perfformiad yr ysgol.

Mae llywodraethwyr, uwch arweinwyr a'r rheolwr busnes yn monitro cyllideb yr ysgol yn ddiwyd. Mae prosesau priodol ar waith i ddarparu rheolaeth ariannol gadarn, er bod yr ysgol yn gweithredu diffyg yn y gyllideb ar hyn o bryd, gyda chynllun adfer ar waith.

Mae gan yr ysgol ddull addas o liniaru effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae pwyslais clir ar y ffaith fod gan bawb gyfrifoldeb am hyn, ac mae'n rhan annatod o'r diwylliant ysgol gyfan i gefnogi pob disgybl. Mae'r ysgol yn cefnogi lles a chyrhaeddiad disgyblion o aelwydydd incwm isel trwy ystod eang o strategaethau, yn cynnwys cynllunio'r cwricwlwm, cymorth ymarferol â chostau bywyd ysgol, a chyfle teg i ddefnyddio adnoddau digidol.

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n dda ar ychydig o flaenoriaethau cenedlaethol, fel gwella presenoldeb, cefnogi disgyblion ag ADY, a lleihau effeithiau tlodi ar les disgyblion a'u hymgysylltiad â dysgu. Mae arweinwyr bugeiliol yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda, sy'n helpu'r ysgol i sicrhau cymorth amserol, pan fydd angen. Mae hyn yn cynnwys cynyddu cyfalaf diwylliannol y disgyblion hyn a chodi eu dyheadau. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu harholiadau Blwyddyn 11 ychydig islaw eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, ac mae eu presenoldeb yn rhy isel o hyd. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol wedi cael digon o effaith ar flaenoriaethau cenedlaethol eraill fel gwella'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, ar y cyfan, er bod diffyg canol blwyddyn, a chynllun adfer wedi'i gytuno gyda'r awdurdod lleol. Er bod arweinwyr a llywodraethwyr yn cynllunio ac yn monitro'r defnydd o'r grant datblygu disgyblion yn addas, nid yw'r gwariant hwn yn cael effaith arwyddocaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn enwedig o ran gwella'u presenoldeb.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/03/2026